



# Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru – Cam 3 – Cymorth Newydd

## CYMHWYSEDD – MODELAU LLYWODRAETHU

Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i chi: -

- Fod yn gorff corfforedig wedi'i leoli yng Nghymru ac yn gweithredu er budd pobl Cymru
- Cael dogfennau llywodraethu sy'n cynnwys clo asedau priodol a rheolaeth dosbarthu dididend
- Bod â'r gallu i ddangos trosolwg ac annibyniaeth briodol o Fwrdd cymwys â chworwm sydd ag o leiaf tri chyfarwyddwr neu ymddiriedolwr
- Cael safonau polisi lleiaf priodol ar waith (ee diogelu). Bydd pecynnau cymorth ar gael i helpu ymgeiswyr i wella lle y bo angen
- Cael un o'r ffurfiau cyfreithiol canlynol: -
  - Cwmni cyfyngedig drwy warant
  - Cwmni buddiannau cymunedol (cyfyngedig trwy gyfranddaliadau neu drwy warant)
  - Cymdeithas budd cymunedol neu strwythur cydweithredol tebyg
  - Mudiad corfforedig elusennol
  - Cwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau lle y mae'n is-gwmni o ffurf gyfreithiol cymwys arall

- Cwmniau ariannol cydfuddiannol

Mae croeso i grwpiau anghorfforedig ymgeisio, ond rhaid i gorffori fod yn rhan ddi-oed o'ch cynlluniau. Ni fydd cyllid yn cael ei ryddhau hyd nes y byddwch chi'n gorff corfforedig.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y gwahaniaethau rhwng cyrff corfforedig ac anghorfforedig yn y [daflen wybodaeth](#) hon.

I gael cymorth gyda'r broses, efallai yr hoffech chi gysylltu â'ch [Cyngor Gwirfoddol Sirol \(CVC\)](#) lleol neu [Busnes Cymdeithasol Cymru](#) os ydych chi'n bwriadu corffori.

## **CYMHWYSEDD – YSTYRIAETHAU ERAILL**

Mae mudiadau sydd wedi cael cyllid o'r blaen trwy ddwy raglen flaenorol Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector yn gymwys i gael cyllid ychwanegol trwy Gam 3. Ond, bydd yn rhaid i ymgeiswyr blaenorol TSRF ddangos newid sylweddol mewn amgylchiadau neu effaith hirfaith COVID-19 os byddant angen mwy o gyllid trwy faes Goroesi Cam 3. Oherwydd hyn, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymgeiswyr nad ydynt wedi derbyn cyllid o'r blaen.

### **Goroesi**

- Mae'r maes hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo'r mudiadau hynny yn y sector gwirfoddol sydd angen cymorth ariannol i oroesi'r argyfwng cyfredol yn bennaf oherwydd gostyngiad digyffelyb yn eu hincwm codi arian a rhoddion. Rydyn ni'n sylweddoli y bydd gan lawer o fudiadau cymysgedd o incwm codi arian/rhoddion ac incwm masnachu.
- Rydyn ni'n deall bod y cymorth ariannol sydd ar gael i fudiadau sydd wedi'u heffeithio gan COVID-19 yn newid yn barhaus. Fodd bynnag, os yw eich sefyllfa ariannol wedi dod yn bennaf yn sgil colli incwm masnachu, byddwn yn disgwyl eich bod wedi ystyried eich cymhwysedd ar gyfer y cymorth grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a ph'un a yw hwn yn fwy addas i chi. Gallai fod

cyllid penodol i'r sector hefyd ar gael i chi, ee Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru ac ati. Fodd bynnag, os oes rheswm pam na allwch chi gael gafael ar y cymorth hwn fel mudiad gwirfoddol, mae'n bosibl y byddwn ni'n gallu eich cynorthwyo o hyd.

- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos eu bod wedi dioddef neu ar fin dioddef colled sylweddol i'w hincwm o ganlyniad i ffactorau COVID-19. Ar ôl dilyn pob opsiwn sydd ar gael iddynt i leihau costau i'r swm lleiaf posibl sy'n hanfodol i oroesiad y mudiad ac wedi iddynt gael gafael ar gymorth penodol gan gronfeydd eraill, mae diffyg llif arian yn parhau.
- Dim ond swm penodol o arian sydd ar gael ac ni ellir disgwyl iddo dalu am 100% o gostau mudiad yn ystod y cyfnod hwn. Rydyn ni eisiau i'r gronfa fod mor hygyrch a rhydd o fiwrocratiaeth â phosibl, felly nid ydyn ni'n gosod gormod o reolau llym ynghylch y swm y gofynnir amdano o fewn y terfyn uchaf. Fodd bynnag, hoffem ofyn i fudiadau barchu'r ffaith mai cronfa argyfwng yw hon ac i ofyn am yr hyn sy'n wirioneddol ei angen arnynt i oroesi yn unig. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnig cymorth i gymaint â phosibl o fudiadau.
- Bydd cyfyngiad ar nifer y dyfarniadau mwy o faint y byddwn ni'n gallu eu gwneud ac mae'n bosibl y bydd angen lleihau graddfa dyfarniadau unigol yn unol â'r galw cyffredinol.
- Nid oes gofyniad ffurfiol i ddangos tystiolaeth o angen, ond byddwn ni'n gofyn pa gamau eraill sydd wedi'u cymryd i leihau'r swm y gofynnir amdano. Nid yw bod ag arian anghyfyngedig wrth gefn yn atal mudiad rhag gwneud cais am gymorth, ond disgwylir y bydd cyfran berthnasol o'r cronfeydd wrth gefn hynny'n cael ei defnyddio ochr yn ochr â'r cyllid y gofynnir amdano yn y cais hwn fel rhan o'ch cynllun i oroesi. Mae arian anghyfyngedig wrth gefn yno i'ch cynorthwyo ar ddiwrnod glawiog, a hwn yw'r diwrnod glawiog hwnnw.
- Ni ddisgwylir bod mudiad wedi gorfod gwneud cais am fenthyciad i dalu am wariant hanfodol yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, nid yw defnyddio'r cynllun hwn yn atal ceisiadau am fenthyciadau o'r fath rhag cael eu gwneud i gefnogi anghenion eraill os cred y mudiad fod hynny'n briodol.
- Byddwn ni'n chwilio am dystiolaeth nad oedd ymgeisydd yn cael anawsterau ariannol cyn yr argyfwng ac y bydd y pecyn o fesurau y

mae'n bwriadu ei roi ar waith, gan gynnwys y cymorth hwn, yn cadw ei ben uwchlaw'r dŵr am o leiaf y chwe mis nesaf.

## CYMHWYSEDD – COSTAU

### Goroesi

- Mae'r isod yn rhoi syniad o gostau cymwys ac anghymwys fel y maen nhw'n berthnasol i'r maes. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gallai'r hyn y gellir talu amdano fod yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol iawn. Yn gyffredinol, maen nhw'n wariant refeniw na ellir ei osgoi:

<b>Cymwys</b>	<b>Anghymwys</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflogau staff ar gyfer y rheini nad ydynt ar ffyrlo ac sy'n parhau i fod eu hangen ar gyfer parhad y busnes neu ddibenion darparu gwasanaethau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Efen gyfalaf ad-daliadau ar fenthyciadau</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhent ar adeiladau pan nad yw'r landlord yn barod i'w ohirio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ardrethi busnes pan fydd cymorth ar gael o rywle arall</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llog ar fenthyciadau cyfredol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Taliadau CThEM</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Biliau cyfleustodau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniadau pensiwn</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anfonebau cyflenwyr, gan gynnwys anfonebau newydd am barhau i ddarparu gwasanaethau</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ardrethi busnes pan na fydd cymorth arall ar gael</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Premiymau yswiriant</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag ennill yr achrediadau cytunedig</li> </ul>	

## Ffynnu

Dylai'r costau fod yn berthnasol i'r gweithgarwch a nodwyd yn eich cynnig. Bydd angen i chi lunio rhagolwg yn ystod y broses ymgeisio. I fod yn gymwys, bydd angen i unrhyw wariant arwain at gynhyrchu mwy o incwm dros amser neu adael etifeddiaeth ddiffiniol o fewn y busnes fel ei fod yn amlwg yn fwy gwydn ar gyfer y dyfodol.

Er bod y gronfa wedi'i hanelu'n gyffredinol at gostau refeniw, gellir ystyried rhai costau cyfalaf o fewn cap cyffredinol o £5,000. Eto, rhestr enghreifftiol yw hon yn hytrach nag un cynhwysfawr:

<b>Cymwys</b>	<b>Anghymwys</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflogau staff ar gyfer swyddi newydd sy'n ymwneud â'r gweithgarwch arfaethedig</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflogau staff cyfredol</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Costau marchnata sy'n ymwneud â gweithgarwch newydd a gyllidir o dan Amrywio neu Gwella</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Costau marchnata cyffredinol</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Y costau sy'n gysylltiedig â llunio neu wella strategaeth codi arian, gan gynnwys cyflog ar gyfer y sawl sy'n codi arian</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Efen gyfalaf ad-daliadau ar fenthyciadau</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Costau sy'n gysylltiedig â diwygio'ch gwefan i gynnwys y gallu i wneud gwerthiannau / cymryd archebion / derbyn rhoddion</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ardrethi busnes pan ellir cael cymorth o rywle arall</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygu proses gofnodi ac adrodd effaith gadarn</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Taliadau CThEM</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Costau cyfreithiol perthnasol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cyfredol</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Premiymau yswiriant sy'n ymwneud â gweithgarwch newydd</li></ul>	

<b>Cymwys</b>	<b>Anghymwys</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarpar TG sydd ei angen ar gyfer gweithgarwch newydd neu ar gyfer gwella gweithgarwch (o fewn cap o £5 mil)</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Les ar adeiladau os ydych yn cymryd eiddo newydd neu welliannau bychain i eiddo (o fewn cap o £5 mil)</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag ennill yr achrediadau cytunedig</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Costau llog sy'n gysylltiedig ag unrhyw fenthyciadau newydd sy'n berthnasol i'r gweithgarwch</li> </ul>	

Os ydych chi'n credu eich bod yn gymwys ac yn dymuno symud ymlaen i wneud cais, mewngofnodwch ar [borth ar-lein](#) MAP CGGC.